**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA JJ 0952 v24

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

seneddcydraddoldeb@senedd.cymru

11 Ebrill 2024

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 18 Mawrth, at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, yn holi cwestiynau pellach ynghylch ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor i broses lywodraethiant yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae maes tân yn rhan o'm portffolio innau bellach, ac mae fy ymatebion fel a ganlyn.

**Adolygiadau Awdurdodau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru**

Mae eich llythyr yn cyfeirio at y datganiad ysgrifenedig a wnaed ar 11 Mawrth gan y Dirprwy Weinidog ar y pryd, pan nododd fod honiadau o gamymddwyn wedi'u gwneud ymhlith staff yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru; ac yng ngoleuni'r honiadau hynny, bod cyfiawnhad dros yr adolygiadau annibynnol o'r sefydliadau hynny. Rydych hefyd yn dyfynnu Prif Swyddog Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a groesawodd y datblygiadau hyn a'r gwaith craffu y bydd yr adolygiadau yn ei sicrhau.

Nid wyf yn credu bod gwrthdaro rhwng y datganiadau hyn. Mae pawb yn cytuno (fel finnau) ei bod yn bwysig cael sicrwydd llawn am ddiwylliannau ac arferion rheoli gweithleoedd y ddau sefydliad. Nid yw gweithredoedd unigol o gamymddwyn, ynddynt eu hunain, er yn gwbl warthus, yn golygu ein bod yn delio â'r un sefyllfa ag a welwyd yn Ne Cymru, lle roedd diwylliant y gweithle yn ormesol ac yn gwahaniaethu yn erbyn pobl, a lle nad oedd y prosesau rheoli yn gweithio. Adolygiad annibynnol yw'r ffordd orau o ymchwilio i hyn.

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fydd yn comisiynu ac yn goruchwylio'r adolygiadau, a dylid cyfeirio eich

cwestiynau manwl am benodiadau, amseru a chylch gorchwyl atyn nhw. Rwy'n disgwyl i'r adolygiadau gael eu harwain gan unigolyn o statws addas o'r tu allan i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, y bydd yr unigolyn hwnnw'n ymgysylltu'n agored ac yn helaeth â staff presennol a chyn-staff, ac y bydd yn rhoi adroddiad cyn gynted â phosibl.

**Arolygu ac archwilio**

Trafodais y rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn eich llythyr yn fy mhapur tystiolaeth at y Pwyllgor, ac nid oes gennyf lawer i'w ychwanegu at hynny.

Yr unig newid diweddar i'r drefn arolygu yn Lloegr yr wyf yn ymwybodol ohono yw'r cam y llynedd o raddfa pedwar pwynt o ddyfarniadau wedi'u graddio (rhagorol / da / angen gwella / annigonol) i raddfa pum pwynt (sydd â gradd "digonol" rhwng "da" ac "angen gwella"). Nid wyf yn credu bod hynny'n newid y drefn gyffredinol na'i chryfderau a'i gwendidau yn sylweddol. Fel y dywedais yn fy mhapur tystiolaeth, mae manteision ac anfanteision i'r dull hwnnw, ond ni ellir disgwyl iddo ganfod neu atal methiannau rheoli a diwylliannol bob amser – yn wir, nid yw wedi gwneud yn Lloegr.

**Prif Gynghorydd Tân ac Achub**

Penodwyd y Prif Gynghorydd Tân ac Achub gan y Frenhines o dan a28 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i wneud ymholiadau i sut mae Awdurdodau Tân ac Achub yn arfer eu swyddogaethau; ac i gynghori Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub yn unol â hynny. Fel cyn-Brif Swyddog Tân, ei brif ffocws yw materion gweithredol, yn gywir felly, a dyna ei brif faes arbenigedd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ei atal rhag ymchwilio i faterion diwylliant a rheolaeth sefydliadol, yn enwedig am fod y rhain yn gallu effeithio'n rhy hawdd ar berfformiad gweithredol. Felly, mae'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub presennol wedi bod yn ymwneud yn agos iawn â phenderfyniadau ynghylch yr ymyrraeth yn sefyllfa De Cymru, ac ynghylch y sefyllfa mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub hefyd yn was sifil parhaol i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'n arferol nac yn briodol i weision sifil gwrdd â phenodeion gwleidyddol fel Cadeiryddion Awdurdodau Tân ac Achub ar sail eu rhinwedd eu hunain; rôl y Gweinidogion yw hynny. Yn unol â hynny, ac yn unol â'i statws fel cynghorydd proffesiynol ar faterion gweithredol, mae'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn delio'n bennaf â'r Prif Swyddogion Tân a staff eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Rydych hefyd yn holi ynghylch cyfarfodydd y cyn-Ddirprwy Weinidog gyda Chadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub dros y tair blynedd diwethaf. Cynhaliwyd 21 o gyfarfodydd o'r fath, ac rwyf wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Aeth y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a/neu swyddogion eraill Llywodraeth Cymru i'r holl gyfarfodydd hyn i'w chefnogi; maent hefyd yn cwrdd â'r Prif Swyddogion Tân bob tair wythnos, ac â'r Prif Swyddogion Tân a staff eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub yn aml mewn fforymau eraill ac ar sail *ad hoc*. Ni allaf gytuno â barn y Cynghorydd Bradwick yr ydych yn ei ddyfynnu yn eich llythyr, bod yr ymgysylltu wedi bod yn annigonol.

**Argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi**

Fe wnaethoch holi ynghylch gohebiaeth y cyn-Ddirprwy Weinidog a'r Awdurdodau Tân ac Achub yn dilyn adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ym mis Mawrth 2023 am ddiwylliant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Lloegr. Rwy'n amgáu hyn ar ffurf y llythyr at Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (roedd y lleill union yr un fath, fwy neu lai), ynghyd â'r atebion a dderbyniwyd. Cofiwch mai yn Saesneg yn unig y mae'r dogfennau hyn, gan adlewyrchu dewis iaith y Prif Swyddogion Tân.

**Hyfforddiant Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub**

Mater i'r Awdurdod Tân ac Achub dan sylw yw trefniadau hyfforddi a sefydlu ei Aelodau; efallai y bydd CLlLC hefyd yn gallu cynnig cefnogaeth yn y maes hwn. Ni allaf wneud sylwadau ar gynnwys hyfforddiant o'r fath.

**Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol**

Sefydlodd y cyn-Ddirprwy Weinidog y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub ym mis Ionawr 2023, a chadeiriodd ei holl gyfarfodydd. Ymhlith yr aelodau mae:

- tri Chadeirydd yr Awdurdodau Tân ac Achub (yn achos Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, un o'r Comisiynwyr bellach yn hytrach na'r Cadeirydd)
- pob undeb llafur cydnabyddedig a chorff cynrychioliadol yn y sector (Undeb y Brigadau Tân, Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân, GMB, UNSAIN ac Unite)
- CLlLC
- Llywodraeth Cymru (ar ffurf y Prif Gynghorydd Tân ac Achub)

Mae'r Prif Swyddogion Tân a swyddogion eraill yn mynychu mewn rôl ymgynghorol, ond nid ydynt yn aelodau llawn o'r Fforwm.

Rwy'n hapus i rannu agendâu a chofnodion y Fforwm. Rwyf wedi atodi'r cofnodion y cytunwyd arnynt (sydd hefyd yn adlewyrchu'r agendâu) ar gyfer y cyfarfodydd hyd at fis Hydref 2023, a'r agenda ar gyfer cyfarfod 11 Mawrth 2024 (cytunir ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf). Byddaf hefyd yn trefnu i agendâu a chofnodion y dyfodol gael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor. Cofiwch mai yn Saesneg yn unig y mae'r dogfennau hyn, gan adlewyrchu dewis iaith aelodau'r Fforwm.

Yn gywir




**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

**Atodiad – Cyfarfodydd Gweinidogol gyda Chadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub 2021-2024**

| Dyddiad | Yn bresennol / lleoliad | Math o gyfarfod | Hyd |
|---|---|---|---|
| 17 Mawrth 2021 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, ar-lein | Trafodaeth gyffredinol | 45 munud |
| 7 Gorffennaf 2021 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, ar-lein | Trafodaeth gyffredinol | 1 awr |
| 9 Medi 2021 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, pencadlys Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant | Trafod a chyflwyniad ar raglen lleihau tanau gwyllt Llethrau Llon | 2 awr |
| 13 Ionawr 2022 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, ar-lein | Trafodaeth gyffredinol | 1 awr |
| 31 Mawrth 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gorsaf dân Wrecsam | Trafodaeth gyda diffoddwyr tân benywaidd am brofiadau menywod yn y Gwasanaeth, a thrafodaeth gyffredinol gyda'r Cadeirydd / y Prif Swyddog Tân | 2 awr |
| 7 Ebrill 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, canolfan hyfforddi Earlswood, Castell-nedd | Arddangos cyfleusterau hyfforddi a thrafodaeth gyffredinol gyda'r Cadeirydd / y Prif Swyddog Tân | 90 munud |
| 7 Ebrill 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, canolfan hyfforddi Porth Caerdydd | Seremoni cwblhau hyfforddiant recriwtiaid a thrafodaeth gyffredinol gyda'r Cadeirydd / y Prif Swyddog Tân | 90 munud |
| 21 Medi 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd | Arddangos sgiliau achub o'r dŵr a thrafodaeth gyffredinol gyda'r Cadeirydd / y Prif Swyddog Tân | 2 awr |
| 22 Medi 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gorsaf dân y Trallwng | Cyfarfod â chriw gwyliadwriaeth a thrafodaeth gyffredinol gyda'r Cadeirydd / y Prif Swyddog Tân | 2 awr |

| Dyddiad | Yn bresennol / lleoliad | Math o gyfarfod | Hyd |
|---|---|---|---|
| 29 Medi 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gorsaf dân y Rhyl | Cyfarfod â chnewyllyn newydd o recriwtiaid, a thrafodaeth gyffredinol gyda'r Cadeirydd / y Prif Swyddog Tân | 90 munud |
| 13 Rhagfyr 2022 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ar-lein | Trafod adroddiadau newyddion am gamymddygiad ymhlith staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 1 awr |
| 26 Ionawr 2023 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, Tŷ Hywel, Caerdydd | Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub | 90 munud |
| 8 Mawrth 2023 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, ar-lein | Trafodaeth gyffredinol | 1 awr |
| 19 Ebrill 2023 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Phrif Swyddog Tân a staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gorsaf dân yr Eglwys Newydd, Caerdydd | Agor cyfleuster chwilio ac achub trefol newydd | 90 munud |
| 26 Ebrill 2023 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, Adeilad Pierhead, Caerdydd | Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub | 1 awr |
| 4 Gorffennaf 2023 | Y Cwnsler Cyffredinol a holl Gadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub, ar-lein | Trafod Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) Llywodraeth y DU | 30 munud |
| 5 Gorffennaf 2023 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, Tŷ Hywel, Caerdydd | Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub | 90 munud |
| 14 Medi 2023 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, swyddfa LlC, Cyffordd Llandudno, ac ar-lein | Trafodaeth gyffredinol | 1 awr |
| 25 Hydref 2023 | Holl Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr Awdurdodau Tân ac Achub, Adeilad Pierhead, Caerdydd | Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub | 90 munud |
| 8 Ionawr 2024 | Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Phrif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ar-lein | Trafod adroddiad adolygiad diwylliannol gan Fenella Morris CB | 1 awr |

| Dyddiad | Yn bresennol / lleoliad | Math o gyfarfod | Hyd |
|---|---|---|---|
| 11 Mawrth 2024 | Cadeiryddion Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Comisiynwyr Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a phob Prif Swyddog Tân, Parc Cathays, Caerdydd | Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub | 90 munud |

Cafodd y Dirprwy Weinidog hefyd dri chyfarfod â'r Prif Swyddogion Tân nad oedd modd i'r Cadeiryddion perthnasol fynd iddynt: ar 7 Hydref 2021 gyda Phrif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yng ngorsaf dân Llanwrtyd, ac ar 30 Medi 2021 ac 18 Mai 2023 gyda Phrif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei bencadlys yn Llanelwy.